# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 2 Chwefror 2012** |
| Amser: | **09:30 – 11:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_02_02_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **David Worthington, Welsh Government**<br>**Chris Brereton, Welsh Government**<br>**Chris Humphreys, Welsh Government**<br>**Rob Wilkins, Food Standards Agency** |
| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Clerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 17.49, croesawodd y Cadeirydd Joyce Watson AC i'r cyfarfod. Roedd Joyce Watson yn bresennol ar gyfer eitem 2 ar yr agenda ar ran y Pwyllgor Menter a Busnes.

## 2. Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) - Briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

2.1 Bu swyddogion yn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

2.2 Cytunodd y swyddogion i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn, yn unol â chais y Pwyllgor:

- ffigurau ynghylch nifer yr ymweliadau â thudalennau gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n ymwneud â sgorio hylendid bwyd;
- dadansoddiad o nifer yr ysbytai yng Nghymru sydd ymhob categori hylendid bwyd;
- nifer yr ysbytai yng Nghymru sy'n arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar hyn o bryd; a
- ffigurau cywir ynghylch nifer y busnesau bwyd yng Nghymru sydd wedi cael eu sgorio ers mis Hydref 2010, fesul awdurdod lleol, a dadansoddiad o nifer y busnesau sydd ymhob categori sgorio.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn debyg unwaith y bydd yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft wedi cau.

## 3. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - Trafod y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei waith ymgysylltu allanol ar gyfer yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar weithgaredd ymgysylltu arfaethedig a chytunodd i benodi Age Cymru a Gofal Croesffyrdd i weithio ar y cyd er mwyn hwyluso'r gwaith hwn.

## 4. Blaenraglen waith - Trafodaeth ynghylch sesiynau tystiolaeth un-tro

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod pynciau ar gyfer cynnal pedair sesiwn dystiolaeth un-tro yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i geisio cynnal ymchwiliadau undydd mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Amseroedd aros ar gyfer cadeiriau olwyn yng Nghymru: gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn y Trydydd Cynulliad ar wasanaethau cadair olwyn yng Nghymru;
- Atal thrombo-emboledd gwythiennol; a
- Lleihau symudiadau ffetws a marwenedigaeth yng Nghymru.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor:

- i benderfynu'n ddiweddarach ar y pwnc i'w drafod yn ystod ei bedwaredd sesiwn, gan benderfynu rhwng trafod gwasanaethau cyd-ymatebwyr,

mynediad at feddyginiaethau ag amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau orthopedeg;

- i aros am adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar ei ymchwiliad i anhwylder straen wedi trawma, sy'n mynd rhagddo, cyn ymgymryd ag unrhyw waith ar y mater hwn; ac
- y byddai angen mwy nag un diwrnod i drafod anghydraddoldebau iechyd, ac felly y dylid cynnwys y mater hwn ar restr o bynciau posibl ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr.

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 ac ar 8 Chwefror

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod a gynhelir ar 8 Chwefror, ac eithrio'r sesiwn dystiolaeth lafar a gynhelir gyda Jean-Pierre Girard ar yr ymchwiliad i ofal preswyl, a gaiff ei chynnal yn gyhoeddus.

## 7. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Trafod y prif faterion

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y materion allweddol mewn perthynas â'i ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru, a chytunodd i ddychwelyd er mwyn trafod ei gasgliadau ac argymhellion allweddol yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 8 Chwefror.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.